

949)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.

Yr Hen Gapel,Pencader -- Rhagfyr 15/12/14. 7.30pm

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:

Val Davies	Glyn Jones	Raymond Lewis
Eirian Jones	Marc Jones	Keith Lewis
Annette Davies	Melfyn Evans	
Haulwen Lewis	Yvonne Griffiths	

Clerc:	Anita Evans
Ymddiheuriadau:	Sian Thomas,Lynn Evans.
Cyfieithydd:	Hefin Jones
Absennol:	neb
Ymwelwyr/visitors:	C.Harrison,Julie Mathews,O.Davies,M.Davies,N.Marriott.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod,ac ar ol derbyn ymddiheuriadau cafodd yr ymwelwyr gyfle i roi eu sylwadau.

1)Roedd Mr.Harrison,Fferm Bedwhirion yn datgan ei ofid am y dulliau sy'n cael eu defnyddio i dorri'r coed ar y tir sy wedi ei benodi ar gyfer Fferm Wynt Gorllewin Brechfa gan RWE,ac yn credu nad ydynt yn dilyn yr amodau cynllunio.Mr.Harrison stated his concerns regarding the clearing of land,and wrongly harvesting of trees by RWE on land designated for Brechfa Forest West Wind Farm.He worries that planning regulations have been mis interpreted.Eirian Jones responded,stressing that this was his personal view,that he would be prepared to visit the site.This matter will be on the January agenda.(5 clear days receipt of correspondence must be adhered to).

2)Julie Mathews—yn dymuno gweld cofrestr buddiannau y Cyngor yma—esboniwyd iddi unwaith eto fod rhaid derbyn y cais drwy lythyr/requests to view this Council's Declaration of Interest register,but was again told that we need all matters/requests to be sent by letter.

3)Meinir Davies---yn dymuno gweld Rheolau Statudol y Cyngor yma—mae'r ateb yr un peth a'r uchod/requests to see a copy of this Council's Standing Orders;the answer was the same as the above.

Doedd dim aelod o'r Heddlu yn bresennol/no members of the Police were present.

950)1)Cofnodion mis Tachwedd/Nov.minutes: cafwyd yn gywir—Eirian Jones yn cynnig,ac Annette Davies yn eilio.

Materion y Clerc/Clerk matters:

a)Ateb Gary Carlsen ynghlŷn a llythyr oddiwrth y Cyngor yma am y llwybr heibio Glandwr,Pencader:

“Your Community Council’s support for the diversion is based on safety issues.Could you advise me on those specific issues.Mrs Bushin’s main safety concern relates to cyclists using the footpath,which is not a valid reason for diversion,due to the fact that cycling is not allowed on a public footpath,and is therefore a civil trespass,which Mrs.Bushin needs to address by other means.”

Cynnigiodd Eirian Jones ein bod yn anfon rhesymau i’r swyddog,yn esbonio fod Glanawmor Isaf yn fferm sy’n gweithio,bod anifeiliaid yn y caeau,a’r perygl o gerddwyr yn gadael gatau ar agor.Eiliodd Keith Lewis.We will point out to Gary Carlsen,in our correspondence,that Glanawmor Isaf is a working farm,and there is the constant danger with walkers,that gates will be left open,leaving animals to wander.

b)Llwynwallter,Alltwalis—bydd gwaith yn cael ei wneud yn y flwyddyn newydd,i arbed llif/Trafic Section,C.C.Council will work on placing a drain in the field to avoid floods.

c)Troead am Glantweli Fach o Bencader—bydd John McEvoy yn dod mas i fesur a oes lle i osod arwydd mawr yn gwahardd cerbydau mawr rhag troi lawr/the County Council will visit the junction of the Pencader road with the road turning off for Glantweli Fawr, to see if there is sufficient space to place a large vehicular sign forbidding lorries from turning down.

ch)Cysgodfannau bws---mae’r C.Sir yn eu glanhau ddwywaith y flwyddyn—ac maent wedi bod yn ein Plwyf fis Medi.Os oes adroddiadau eu bont yn frwnt,gellir rhoi gwybod i Tony Williams.The County Council have cleaned the bus stops in our Parish in September.They are only cleaned twice a year,but if we have reports that they are dirty,we can report to Tony Williams.

2)Ariannol/financial:---cafwyd yn gywir,Annette Davies yn cynnig ac Yvonne Griffiths yn eilio.Biliau i’w talu/bills to pay:cyflogau(wages);Trywydd(translation service)--£56.40;Windy Corner--£103.19;Ken Thomas(Gofalwr Mynwent Alltwalis)£400.00,petrol --£26.00;cynnigiodd Raymond Lewis fod y biliau’n cael eu talu,ac eiliwyd gan Melfyn Evans.Adroddiad y Banc Rhagfyr 1af/Dec.1st bank statement shows £76,118.26.

Bydd Haulwen Lewis ac Yvonne Griffiths yn mynd i HSBC Caerfyrddin i drefnu cael cerdyn Banc/Haulwen Lewis and Yvonne Griffiths will visit HSBC Carmarthen to make arrangements for a bank card for the Council.

3)Cynllunio/Planning --ni wnaeth C.Sir L.Evans gymeryd rhan/C.C.Linda Evans took no part in planning discussions.

Wedi ei ganiatau/granted:

a)W/30641----removal of conditions at plot adjacent to Hafanhaul,Gwyddgrug for Marlene Evans.

Newydd/new:

b)W/31271----tŷ a garej—drws nesa/land adjacent to Llwynon,Pencader i/for Glyn Morgan.

c)W/31290----barn conversion at Waunfach,Llan’el ar arth for Mr.and Mrs.P.Howells.

Doedd dim gwrthwynebiad i’r uchod/there were no objections to the above.

951) 4) Gohebiaeth/Correspondence:

Cyngor Sir Gar/C.County Council:

1) Gan fod Haulwen Lewis wedi ymddiswyddo o fod yn Llywodraethwr Ysgol Cae'r Felin, mae angen aelod i'n cynrychioli. Bodlonodd Keith Lewis lanw'r bwlch. Keith Lewis will represent the Community Council on Ysgol Cae'r Felin board of Governors instead of Haulwen Lewis.

Eraill/Other:

2) Western Power—information, and plans of consultations on grid connections. Penderfynwyd cwrdd, yn anffurfiol, i drafod ein llythyr i W.P. ar ol ymgynghoriad Alltwalis.

3) Christopher Salmon (Comisiynydd yr Heddlu)—yn gofyn inni lenwi holiadur i'w helpu i osod praecept 2015/16. A questionnaire from Christopher Salmon.

4) Cyfarfod agored yng Nghaerfyrddin 17/01/15—Neuadd San Pedr—"Tynged yr Iaith".

5) Llythyr oddiwrth Mr. Stuart Wilson ynghlŷn a'r datblygiad dai ym mhentre Pencader. Mae'n cynnig rai pwyntiau a fyddai'n hwyluso'r ardal pan fydd yr adeiladu ar waith. Cynnigiodd Annette Davies ein bod yn anfon copi o'r llythyr i'r Adran Gynllunio yn y Cyngor Sir, ac eiliodd Raymond Lewis. Cynnigiodd Marc Jones ein bod yn cysylltu a'r Cyngor Sir hefyd yn datgan ein cefnogaeth i'r pwyntiau. Eiliodd Glyn Jones. Stuart Wilson has corresponded with this Council regarding the housing development on the 3As site in Pencader. In the letter he lists a few points which would make the actual building work more convenient for the villagers, and not be an eye-sore. Annette Davies proposed that a copy of the letter be sent to the planning dept. of Carmarthen County Council, and Raymond Lewis seconded. Further to this Marc Jones proposed that we send a letter to the C. Council supporting Mr. Wilson's comments, and Glyn Jones seconded.

6) Llythyr oddiwrth Val Davies yn datgan ei dymuniad i ymddiswyddo o gynrychioli'r Cyngor yma ar bwyllgor llywio'r Pwerdy. (Gadawodd Val Davies yr ystafell). Penderfynwyd peidio a dewis aelod arall am y tro. Diolchwyd yn fawr i Val Davies am ei gwaith dros y blynnyddoedd. Val Davies left the room. She had sent a letter to this Council informing us that she was resigning from representing this Council on the Powerhouse Committee. On her return Val Davies was thanked for her long term on the board. For the time being, the Council did not choose another member.

5) U.F.A. (gwybodaeth yn unig) AOB (information only):

Val Davies---eisiau atgoffa'r C. Sir am gyflwr hewl Pontweli/the road leading to Wilkes' Head needs attention.

Yvonne Griffiths --yr un neges am gyflwr hewl Gwyddgrug/we will remind C.C. Council about the Gwyddgrug road.

Glyn Jones---mae'r gratin ar bwys Croes Man wedi ei atgyweirio.

Melfyn Evans—mae angen gwneud rhywbeth am y ceir sy'n parcio o flaen Hen Swyddfeydd y Cyngor ym Mhencader. Mae ffrynt y ceir rhy bell mas i'r ffordd fawr. The cars parked outside the old Council Depot on the Windy Corner road in Pencader are protruding too far out onto the main road.

Keith Lewis---a oes newyddion am atgyweirio'r ty gafodd ddifrod gan y ddamwain yn Alltwalis?

Marc Jones—eisiau meddwl am y seddau/we need to start planning new Parish benches/and repairing others.

C.S. Linda Evans---Bydd 2 fin ailgylchu gwyrdr yn cael eu lleoli pen draw iard y Siop Sglodion/2 glass recycling bins are to be placed on the far side of the car park at Pencader Chip Shop. Grateful thanks to the owners.

952)Cafwyd cyfarfod ychwanegol ar ddiwedd y cyfarfod misol i lanw holiadur C.Sir Gar ar Ymgynghoriad y Gyllideb,a thrafod yr Apeliadau.There was an extra meeting for Councillors to discuss,and fill in the County Council's Budget Consultation 2015-18.We also discussed donations to appeals received:

PIDA(Noson Garolau)-----£100.00 (Y.Griffiths yn cynnig,a M.Jones yn eilio.)

C.FF.I.Sir Gar-----£100.00 (M.Jones yn cynnig,a H.Lewis yn eilio.)

Urdd G.C.(Llandysul)-----£50.00 (H.Lewis yn cynnig,a R.Lewis yn eilio.)

Opera Ieuentid Caerfyrddin----£25.00 (H.Lewis yn cynnig ac Y.Griffiths yn eilio.)

Marie Curie-----£100.00 (Marc Jones yn cynnig a H.Lewis yn eilio.)

Bobath Cymru-----£100.00 (Keith Lewis yn cynnig ac Annette Davies yn eilio.)

Gorffennwyd am 10/meeting ended 10pm.

Cyfarfod nesa/next meeting: 19/01/15